YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK
WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

17.05.2021

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

**Disgwyliadau o Safonau**

Gyda'r ysgol a'r gymdeithas yn ehangach yn dechrau dychwelyd i ryw fath o normalrwydd, hoffwn eich atgoffa o'n disgwyliadau ni fel ysgol. Wedi cyfnod o ail-ymgyfarwyddo gofynnwn am eich cefnogaeth er mwyn sicrhau bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â disgwyliadau sylfaenol o ran Cymreictod, Ymddygiad a Gwisg Ysgol.

**Cymreictod**
Sefydlwyd yr ysgol ar ôl brwydr hir gan nifer o rieni a oedd yn awyddus bod eu plant yn derbyn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Penybont ar Ogwr. Mae defnyddio a pharchu'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'n bodolaeth fel ysgol. Deallwn yn ystod y cyfnod clo bod canran uchel o'n dysgwyr heb dderbyn y cyfle i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg a bod ail-sefydlu'r arfer o'i siarad a'i defnyddio wedi bod yn broses araf. Disgwyliwn bellach glywed ein dysgwyr yn defnyddio'r iaith yn yr ystafell ddosbarth, ar hyd y coridorau, yn ystod amseroedd egwyl a chinio ac yn ystod gweithgareddau allgyrsiol.

**Ymddygiad a Pharch tuag at eraill**
Yn anffodus, rydym wedi bod yn dyst i ddysgwyr yn defnyddio iaith sy'n holl anaddas ac amharchus tuag at ei gilydd ac yn gyhoeddus ar safle'r ysgol. Rydym eisoes wedi delio â'r dysgwyr hynny yn briodol ac yn unol â'r math o iaith a ddefnyddiwyd. Byddwn hefyd yn gweithredu ymhellach gyda chefnogaeth asiantaethau allanol.

**Gwisg Ysgol**
Ers dychwelyd i'r ysgol rydym wedi bod yn hyblyg gyda'n disgwyliadau o ran gwisg ysgol, o ddydd Llun Mai 24ain byddwn yn dychwelyd i'n disgwyliadau gwisg ysgol yn unol â pholisi gwisg yr ysgol:

- Siwmper lwyd gyda logo'r ysgol
- Crys polo gyda logo'r ysgol
- Trowsus ffurfiol, dim jîns, 'jeggings' na throwsus anffurfiol eraill megis chinos.
- Sgert ddu, hyd at y pen-glin
- Cotiau plaen du, llwyd.
- Esgidiau du sawdl isel/fflat, dim bŵts na treinyrs.
- Sanau a teits plaen du.
- Does dim hawl gwisgo unrhyw emwaith – dim clustlysau, modrwyon, tlysau yn y trwyn, mwclis na breichled. Cesglir gemwaith gan unrhyw un sydd yn eu gwisgo ar ddechrau'r dydd a'u dychwelyd ar ddiwedd y dydd. Gofynnwn i rieni/warchodwyr tramgwyddwyr cyson ddod i gasglu gemwaith o'r ysgol.
- Ni chaniateir colur na lliw ar yr ewinedd nac ychwaith lliw gwallt annaturiol

Ar ddiwrnodau pryd ceir gwersi Iechyd a Lles ymarferol **yn unig** y bydd hawl gan ddysgwyr wisgo cit ymarfer corff swyddogol yr ysgol.

**Ffonau Symudol**
Nid oes hawl gan ddysgwyr ddod â ffonau symudol i'r ysgol oni bai am flynyddoedd 12 a 13. Deallwn o dan rai amgylchiadau bod angen dod â ffôn i'r ysgol, gofynnwn felly bod dysgwyr yn mynd â'u ffonau i'r lleoliadau canlynol ar ddechrau'r dydd:

- Swyddfa Cyfnod Allweddol 3 i ddysgwyr bl.7 i 9
- Y Brif Swyddfa i ddysgwyr bl.10 ac 11.

Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad ar y materion allweddol hyn.

Yn gywir,
Meurig Jones
Prifathro



Eco-Sgolion Eco-Schools
Marc Gyrfa Cymru Careers Wales Mark
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
INVESTORS IN FAMILIES BUDDSODDWYR MEWN TEULUOEDD
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
LLWYDDIANNUS ARWEINIOL NERTHOL

YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
POST.YGGLLANGYNWYD@BRIDGEND.GOV.UK
WWW.YGGLLANGYNWYD.CYMRU
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

17.05.2021

Dear Parents and Guardians,

**Expectations and Standards**

As the school and the wider society begin to return to some form of normality, we would like to remind you of our expectations. After a period of re-familiarisation, we ask for your support to ensure that all members of the school community fully comply with basic expectations with regard of the use of the Welsh language, Behaviour and School Uniform.

**Welsh Language**

The school was founded after a long struggle by a number of parents who were eager for their children to be educated through the medium of Welsh in Bridgend County. Using and respecting Welsh is a core part of our existence as a school. We understand during lockdown a high percentage of our learners have not been able to practise their Welsh. Re-establishing the habit of speaking and using it has been a slow process. We now expect to hear our learners using the language in the classroom, along the corridors, during break and lunch times and during extra-curricular activities.

**Behaviour and Respect for others**

Unfortunately, we have witnessed learners using language that is totally inappropriate and disrespectful to one another and publicly on the school site. We have already dealt with those learners appropriately and in accordance to the type of language used. We will also take further action with the support of external agencies

**School uniform**

Since returning to school we have been flexible with our uniform expectations, from Monday May 24th we will be returning to our uniform expectations in line with the school uniform policy:

- Grey jumper with the school logo / Dark grey jumper for year 12 and 13. No hoodies
- Polo shirt with school logo
- White shirt and tie (year 12 and 13)
- Formal trousers, no jeans, 'jeggings' or other informal trousers.
- Black skirt, knee length
- Plain black/grey coats**.**
- Black shoes, no boots or trainers.
- Black plain socks or tights.
- No jewellery is allowed - no earrings, rings, nose piercing, necklaces or bracelet. Jewellery will be collected at the beginning of the day and returned at the end of the day. Parents / guardian of persistent offenders will be asked to collect any confiscated jewellery
- No nail varnish, make-up or unnatural hair colour is allowed

Students are allowed to wear the school's official P.E. kit only on days they've got practical Health and Wellbeing lessons.

**Mobile Phones**

Mobile phones are not required and are not allowed in school accept for years 12 and 13. We however, understand that in some circumstances it is necessary to bring a phone to school, therefore we ask that learners take their phones to the following offices at the beginning of the day:

- Key Stage 3 office for years 7 to 9 learners
- Main Office for year 10 and 11 learners.

We kindly ask for your support and co-operation on these key issues.

Yn gywir
Meurig Jones
Prifathro